



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Newyddion Rhwydwaith Gofal

RHIFYN 1: Mai - Gorffennaf 2023

Croeso i rifyn cyntaf ein cylchlythyr chwarterol.

Mae Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn dwyn ynghyd gwasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ar draws ardal ddaearyddol, gan wasanaethu poblogaeth o rhwng 40,000 a 60,000 fel rheol.

Mae Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol (Meddygon Teulu) Deintyddol ac Optometrig, Fferyllwyr, Nyrsys Cymunedol, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, a Gofal Cymdeithasol yn cyfuno eu harbenigedd a'u gwybodaeth fanwl.

Mae gweithio fel rhan o Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yn sicrhau y cydlynir y gofal yn well er mwyn asesu anghenion y boblogaeth, nodi'r blaenoriaethau o ran gwella gwasanaethau a datblygu datrysiadau lleol er mwyn hybu llesiant unigolion a chymunedau.



Am ragor o wybodaeth ynghylch y rhaglen Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, ewch i [Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan](#)

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cynnwys 11 Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ar draws pum Bwrdeistref: **Gogledd Caerffili, De Caerffili, Dwyrain Caerffili, Gorllewin Blaenau Gwent, Dwyrain Blaenau Gwent, Gogledd Torfaen, De Torfaen, Gorllewin Casnewydd, Dwyrain Casnewydd, Gogledd Sir Fynwy a De Sir Fynwy.**

Cynnwys:

Tudalen 1

Beth yw Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth?

Tudalen 2

Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Blaenau Gwent

Tudalen 3

Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Caerffili

Tudalen 4

Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Sir Fynwy

Tudalen 5

Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Casnewydd

Tudalen 6

Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Torfaen

Tudalen 7

Cydweithfeydd Proffesiynol

Tudalen 8

Diweddariad Cyfathrebu ac Ymgysylltu Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth

Tudalen 9

Gofal Sylfaenol #GIG75

Am ragor o wybodaeth ynghylch unrhyw un o'r straeon sy'n ymddangos yn y cylchlythyr hwn, anfonwch e-bost i: abb.strategicchangeteam@wales.nhs.uk

<https://bipab.gig.cymru/gwasanaethau-gofal-iechyd/meddygon-teulu-deintyddion-ac-ati/rhwydweithiau-gofal-cymdogaeth-ncns/>



Blaenau Gwent



Lansio Model Derbyniadau Uniongyrchol Ymateb Brys Tîm Adnoddau Cymunedol Ward Tyleri

Cafodd lansiad model newydd Ysbyty Aneurin Bevan ei gynnal ar 2 Mai. Nod y model hwn yw gweithredu datrysiad dros dro, wedi'i deilwra i fodloni anghenion unigolion ym Mlaenau Gwent.

Gall carfan fawr o gleifion gwan a/neu oedrannus ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol aros yn eu lleoliad preswyl arferol os oes ganddynt fynediad at gymorth ychwanegol yn y gymuned.

Prif ddiben y llwybr newydd hwn yw darparu'r amgylchedd clinigol mwyaf addas i sicrhau gofal diogel ac effeithiol i bobl. Bydd yn cefnogi mynediad at ofal ychwanegol lle nad oes angen gofal aciwt.

Bydd y model newydd yn darparu triniaeth feddygol a nyrsio ac ymyrraeth amlddisgyblaethol amserol, a/neu gynnig datrysiad ar gyfer mater cymdeithasol allweddol. Bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o ryddhau cleifion yn ôl i'w lleoliad preswyl arferol.

Dywedodd Ann Lloyd CBE, Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, "Gyda'r nifer cynyddol o bobl hŷn, nid oes ffordd well yn fy marn i o'u cadw nhw yn eu hamgylchedd eu hunain. Mae gwybod y byddant yn ddiogel ac yn cael eu hadolygu'n barhaus yn ddatrysiad sy'n hynod addas iddyn nhw a'u perthnasau. Mae hyn yn rhwyd diogelwch cadarnhaol, enfawr."

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y gwasanaeth i'w chael yn y fideo hwn: <https://vimeo.com/832600248?share=copy>

Cyfweliad Radio BGfm Ddydd Mercher 19 Mai 2023, ymunodd Dr Simon Donovan, Arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Blaenau Gwent â Radio BGfm mewn cyfweliad byw yn trafod wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl.

Mae BGfm yn radio cymunedol. Yn cael ei redeg gan y gymuned, ar gyfer y gymuned, o'i stiwdio ym Mharc Banna Nant-y-glo.

Cafodd Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ei chynnal rhwng dydd Llun 15 Mai a dydd Sul 21 Mai 2023. Ein thema swyddogol ar gyfer eleni oedd 'gorbryder'. Bwriad yr ymgyrch oedd helpu pobl a sefydliadau i ddeall y gwahaniaeth rhwng gorbryder ac anhwylderau gorbryder ac i chwilio a chyfeirio ei gilydd yn hyderus at y cymorth priodol.





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Caerffili



Presgripsiynu Natur

Mae Ardal Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi buddsoddi yn y rhaglen bresgripsiynu natur ac wedi cefnogi pwynt mynediad unigol (cydlynedd). Mae Presgripsiynu Natur yn annog a grymuso pobl i gymryd camau er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a all ac a fydd yn ysgafnhau'r pwysau ar y gwasanaethau a'r adnoddau clinigol eraill.

Yn gyffredinol, caiff gweithgareddau presgripsiynu natur/cymdeithasol eu darparu rhan amlaf gan sefydliadau gwirfoddol ac elusennau cofrestredig, ond mae yna nifer fechan o "fusnesau cymdeithasol". Mae darparu gwasanaethau yn rhoi llwybr i gyfeirio unigolion er mwyn trafod ac ystyried yr opsiynau gorau ar gyfer gwasanaethau lleol, anghlinigol.

Mae'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r presgripsiynu hyn yn cynnwys gweithgareddau awyr agored megis cerdded a beicio, ond hefyd yn fwyfwy, gweithgareddau megis cadwraeth amgylcheddol, garddwriaeth etc.

Ar ôl i'r cyfnod peilot gael ei werthuso'n gadarnhaol, datblygodd partneriaid statudol a'r 3ydd sector fodel i weithredu'r llwybr hwn er mwyn i feddygfeydd teulu a gwasanaethau eraill gyfeirio'r unigolion hynny sydd yn eu tyb hwy'n debygol o elwa o "bresgripsiwn natur/cymdeithasol". Yn ogystal, gall pobl hunan-gyfeirio i'r gwasanaeth.

Digwyddiad i aelodau ar draws Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Caerffili a'r Trydydd Sector/Sector Gwirfoddol

Bu Tîm Rheoli Caerffili yn hwyluso digwyddiad i aelodau ar draws Caerffili, a gynhaliwyd yng nghlwb golff Bryn Meadows er mwyn galluogi aelodau eang y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i ddod ynghyd ar gyfer rhannu gwybodaeth a rhwydweithio.

Dan arweiniad y Trydydd Sector, roedd gan y digwyddiad prynhawn farchnad â thros 30 o stondinau'n cynnig gwybodaeth a chyngor. Yn ogystal, cafwyd cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd yn trafod Adeiladu Gwent Decach (Egwyddorion Marmot), Iechyd Meddwl a Llesiant Cyffredinol, Iechyd Menywod, Rhwydwaith Lles Integredig, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Phresgripsiynu Cymdeithasol a Natur.

Drwy gydol y digwyddiad, roedd y pwysigrwydd o weithio ar draws pob sector yn amlwg a chytunodd bawb mai'r unig ffordd o lwyddo oedd drwy weithio ar y cyd.

Mynychwyd y digwyddiad llwyddiannus gan oddeutu 150 o aelodau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth a'r Trydydd Sector.

Cefnogi Wcráin

Mae'r tîm yng nghanolfan iechyd Trethomas yn parhau i gefnogi Welsh Aid for Ukraine ac wedi gallu, yn ystod yr wythnos ddiwethaf, anfon sofffa yn ogystal ag eitemau eraill nad oeddent yn addas ar gyfer eu defnyddio bellach at y tîm sy'n gweithio i'r elusen.



Mae'r llun yn dangos cyfarpar yn cael ei anfon a fyddai, yn ôl Serhiy Hariyan, yr Uwch Lawfeddyg Orthopedig, yn cael eu defnyddio i sefydlu 5ed ardal llawdriniaeth o fewn yr ysbyty i alluogi dinasyddion a milwyr Wcráin sydd yng nghanol y rhyfel gael triniaeth hollbwysig.

Roedd y tîm yn Wcráin yn awyddus i fynegi eu diolch i'r bwrdd iechyd am eu cefnogaeth barhaus.

Os oes gennych unrhyw eitemau nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio ac y gellir eu hanfon i gefnogi ymdrechion, cysylltwch â Mari Burland yn nhîm Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Caerffili a all eich rhoi mewn cysylltiad â Welsh Aid for Ukraine.



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Sir Fynwy

Gwasanaethau Cysylltiadau Llesiant Sir Fynwy

Tîm bychan o gydweithwyr, a ariennir gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, Cyngor Sir Fynwy a'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, sy'n cydweithio i wella ansawdd bywyd trigolion Sir Fynwy. Rydym yn cyflawni hyn drwy gwrdd â phobl yn y gymuned, a thrwy gael sgysiaua ystyrlon er mwyn deall yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r hyn sydd o ddiddordeb iddynt.



Mae gan bob meddygfa Meddyg Teulu yn Sir Fynwy Gynghorydd Cysylltiadau Llesiant sydd ar gael i gyfarfod â chleifion sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â straen, gorbryder neu iselder oherwydd problemau 'anfeddygol'.

Gall pobl fod yn wynebu anawsterau oherwydd materion ariannol, cyflogaeth, perthnasoedd, tai, profedigaeth neu bob math o ffactorau eraill yn eu bywydau.

Mae staff meddygfeydd meddygon teulu yn cydnabod y gallai nifer o'u cleifion elwa o gael sgwrs â rhywun a all eu helpu i nodi'r hyn a all fod yn ddefnyddiol i oresgyn problemau a dod o hyd i rywfaint o fwynhad yn eu bywydau er mwyn gwella eu llesiant.

Gofal Micro Sir Fynwy

Gweithiwr gofal hunangyflogedig yw gofalwr micro, sy'n darparu cymorth a gofal hyblyg, wedi'i deilwra i drigolion yn eu hardal leol. Gall gofalwyr micro gynnig ystod eang o wasanaethau a fydd yn dibynnu ar brofiad blaenorol y gofalwyr micro a'r hyn y maent yn gyfforddus ei gynnig. Bydd rhai'n cynnig gofal personol ac eraill efallai'n cynnig cymorth sy'n cynnwys gwaith tŷ neu weithgareddau cymdeithasol. Gall gofalwyr micro dderbyn tâl drwy daliad uniongyrchol neu gall unigolion ddewis talu am eu gofal eu hunain.

Rhaid i bob gofalwr micro gydymffurfio â'r safonau a nodir yn y cod ymarfer. Pan fyddant wedi cydymffurfio â'r safonau, mae'r gofalwyr micro'n cael eu nodi yn y cyfeiriadur. Mae mynediad at gyfeiriadur gofal micro Sir Fynwy i'w gael drwy Dewis Cymru. Mae naw gofalwr micro wedi eu nodi yn y cyfeiriadur yn Sir Fynwy, gan ddarparu cyfanswm o 161 awr o ofal a chymorth bob wythnos.

Gwasanaeth Eiddilwch Tîm Adnoddau Cymunedol De Sir Fynwy

Dim ond ers ychydig dros flwyddyn mae Gwasanaeth Eiddilwch Tîm Adnoddau Cymunedol De Sir Fynwy wedi bod ar waith. Yn ystod y cyfnod hwn mae sawl menter wedi'u gweithredu. Ar y dechrau, roedd y rhan fwyaf o'r bobl yn dod atom drwy Feddygon Teulu a Nyrsys Ardal. Serch hynny, dros yr ychydig fisoedd diwethaf rydym wedi bod yn hyrwyddo ein gwasanaethau yn rhagweithiol, drwy fforymau gyda'r adran Ddamweiniau ac Achosion Brys yn y Faenor ac arbenigeddau eraill. Mae'r gwaith o ryddhau cleifion yn gynnwys â chefnogaeth yn wasanaeth sy'n galluogi adrannau megis yr adran Ddamweiniau ac Achosion Brys / Gofal yr Henoed i ryddhau cleifion eiddil, hŷn, yn ôl i'r gymuned o leoliad cleifion mewnol, yn effeithlon a diogel. Y gobaith yw y bydd y gwasanaeth hwn yn cael effaith gadarnhaol ar hyd arhosiad cleifion mewnol, gan leihau'r amser yn yr ysbyty ac felly'n gwella canlyniadau cleifion ac ysgafnhau'r pwysau ar wasanaethau cleifion mewnol. Ymhlith yr enghreifftiau o'r hyn rydym yn gallu ei gynnig yn ystod rhyddhau cynnar â chefnogaeth mae monitro gwaed, parhau i roi gwrthfotigau mewnwythiennol mewn lleoliad cymunedol (gyda chymorth ein timau Nyrsio Ardal), adolygiadau clinigol ac adolygiadau meddyginiaeth. Bydd y gwasanaeth hwn nid yn unig yn cael effaith gadarnhaol ar ofal eilaidd, ond hefyd o bosib yn helpu i ysgafnhau'r pwysau ar ein cydweithwyr gofal sylfaenol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Casnew

Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd yn gweithio â'r gymuned Roma

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd wedi bod yn cefnogi'r gymuned Roma i ddefnyddio'r gwasanaeth gofal iechyd a goresgyn y rhwystrau a wynebwyd ganddi o bosib wrth i'w haelodau geisio rheoli eu hiechyd. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd yn mynychu bob wythnos ochr yn ochr â sefydliad TGP Cymru ac mae wedi bod yn galluogi aelodau o'r gymuned i gael apwyntiadau o fewn gofal sylfaenol ac yn bwysicach fyth, maent yn mynychu eu hapwyntiadau, y mae nifer ohonynt wedi'i chael hi'n heriol gwneud hynny yn y gorffennol oherwydd rhwystrau cyfathrebu.



Rydym yn dechrau gweld yr effaith mae newidiadau bychain yn ei chael a gobeithiwn ddechrau sesiynau hyrwyddo iechyd yn ystod y misoedd nesaf, sy'n wirioneddol angenrheidiol yn ein barn ni!

Ward Ruperra yn Cynnal ei Sesiwn Criced Cloc Gyntaf Mae Ward Ruperra yn Ysbyty Gwynllyw wedi cynnal eu sesiwn Criced Cloc gyntaf yn llwyddiannus er mwyn helpu cleifion i godi o'u gwelyau a chadw'n actif!



Dan arweiniad Shaun, Cyfarwyddwr Criced Cloc, gall cleifion a staff gymryd rhan a rhyngweithio â'i gilydd drwy gydol y gêm. Roedd y sesiwn yn rhoi'r cyfle i staff ddysgu am fanteision Criced Cloc a sut i gynnal sesiynau eu hunain yn y dyfodol.



Cafwyd adborth gwych gan bawb a fu'n cymryd rhan!

<https://vimeo.com/831823973?share=copy>

Hwyl fawr i Victoria House, Casnewydd

Bu Victoria House, 136-140 Heol Corporation, Casnewydd yn gartref i sawl adrifiad o'r Tîm Ardal Casnewydd a phartneriaid ers mis Rhagfyr 2005, pan ddaeth yn gartref i Grŵp Iechyd Lleol Casnewydd am y tro cyntaf, ac wedyn Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd.

Bydd Victoria House yn cau ei ddrysau am y tro olaf ar 3 Medi 2023. Mae'r landlord wedi derbyn hysbysiad a bydd y Tîm Ardal, NERS, Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd a Thimau Nyrsio Ardal De-ddwyrain a Dwyrain Canolog yn symud i'w lleoliad newydd yn Heol yr Eglwys, Casnewydd ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r adeilad wedi gweld sawl tîm yn mynd a dod yn ystod y 18 mlynedd diwethaf ac mae gan y staff a fu'n gweithio yno lu o atgofion o'r adeilad. Yn anffodus, mae'r adeilad wedi'i adael i adfeilio ers hynny a bu sawl achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i gwnaeth yn angenrheidiol i adael yr adeilad. Bydd Heol yr Eglwys yn cynnig cyfle gwych i Dîm Ardal Casnewydd a'i bartneriaid greu man gweithio ar y cyd newydd ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau lleol, meithrin cysylltiadau gweithio newydd a chreu llu o atgofion newydd yn y dyfodol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Torfae

Rhaglen Trais yn y Cartref IRIS yn Nhorfaen

Mae Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth Torfaen yn cefnogi IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch), rhaglen sy'n cynorthwyo clinigwyr a staff meddygfeydd i adnabod ac ymateb i anghenion cleifion sy'n cael eu heffeithio gan drais yn y cartref. Yng Ngwent, mae gan Dorfaen y nifer uchaf o feddygfeydd sydd wedi derbyn hyfforddiant IRIS a Gogledd Torfaen yw'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth cyntaf yng Ngwent sydd â phob practis wedi derbyn hyfforddiant IRIS. Mae tystiolaeth yn dangos bod 84% o ddioddefwyr/goroeswyr yn dweud mai'r unigolyn cyntaf y byddent yn datgelu trais yn y cartref iddo yw eu Meddyg Teulu. Wedi derbyn hyfforddiant IRIS, mae Meddygon Teulu a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd Torfaen, ynghyd â staff derbynfa yn teimlo eu bod yn llawer mwy hyderus i ymdrin yn ddiogel â chleifion sy'n datgelu trais yn y cartref. Caiff atgyfeiriadau IRIS eu gwneud yn uniongyrchol i'n Haddysgwr Eiriolwr Torfaen pwrpasol sy'n darparu cefnogaeth arbenigol i bob claf.



“Petawn i heb gael cymorth gennych chi, nid wyf yn siŵr y buaswn yn dal i fod yma ymhen 6 mis. Roeddwn yn teimlo'n anobeithiol. Nid wyf yn dweud fy mod wedi gwella'n llwyr o'm profiadau, bydd hynny'n cymryd blynyddoedd eto, os wella i fyth.

Mae cael y cymorth, fodd bynnag, wedi gwneud i mi sylweddoli bod gennyf ddigonedd i fyw amdano. Fy mhlant, fy ngheulu a'm ffrindiau. Diolch”

Gwasanaethau Podiatreg yn dychwelyd i Ganolfan Adnoddau Blaenafon

Yn ystod yr wythnos yn dechrau 29 Mai 2023 dychwelodd gwasanaethau Podiatreg i Ganolfan Adnoddau Blaenafon. Mae sesiynau'n cael eu cynnal bob dydd Mawrth a dydd Iau rhwng 8.45am a 5.15pm.

Mae Podiatryddion yn trin nifer o gyflyrau yn cynnwys cyflyrau sy'n effeithio ar esgyrn, cymalau, meinwe meddal a chyflenwad gwaed. Maent yn gweithio i atal problemau traed, cywiro camffurfiad, cadw pobl i symud a bod yn actif, lleddfu poen a thrin heintiau.

Nid ydynt yn cynnig gwasanaeth cymdeithasol ar gyfer torri ewinedd felly byddai'n well cysylltu ag Age Connect ac Age Concern ar gyfer hyn:

Gwasanaethau (ageconnectswales.org.uk)

Age Cymru | Elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. (ageuk.org.uk)

Mae mynediad at wasanaethau Podiatreg drwy atgyfeiriadau gan Feddyg Teulu, neu Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol, ac nid oes system hunangyfeirio ar gael.



C.A.T.C.H Torfaen

Mae CATCH yn cefnogi meddygfeydd ym mwrdeistref Torfaen i ddarparu lefel uwch o ofal iechyd i'r cleifion hynny sy'n byw mewn cartrefi gofal neu breswyl. Yn gweithio ar y cyd â staff cartrefi gofal ac ochr yn ochr â'r tîmau amlddisgyblaethol yn y gymuned ehangach, mae nyrsys CATCH yn cwblhau asesiadau cleifion manwl, yn gwneud atgyfeiriadau amserol pellach, ac yn trafod dymuniadau gofal uwch â phreswylwyr a'u teuluoedd, gyda'r nod o gyflawni gofal priodol ar yr amser priodol ac yn y lle priodol. “Mae gan Vicky, y nyrs CATCH, ddigonedd o amser i mi. Mae'n fy archwilio'n well na'r meddyg, a gall bresgripsiynu meddyginiaeth os oes ei angen arnaf hefyd.”



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Cydweithfeydd Proffesiynol

Rhwydweithiau o weithwyr proffesiynol yw'r Cydweithfeydd Proffesiynol gydag arbenigedd sy'n gyffredin rhyngddynt, ac sy'n cydweithio i ddefnyddio eu sgiliau unigryw ar gyfer asesu anghenion poblogaeth yr ardal maent yn gweithio ynddi. Bydd y cydweithfeydd yn casglu gwybodaeth a phrofiad gweithwyr proffesiynol lleol er mwyn mapio darpariaeth gwasanaeth, nodi unrhyw fylchau a datblygu yn ôl anghenion. Byddant yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac yn cynnig datrysiadau.

Mae gweithio â chymheiriaid proffesiynol o fewn ac ar draws ffiniau gwasanaeth yn helpu ein gweithlu i gyflawni'r safonau priodol o ofal y maent yn dyheu eu cyflawni. Mae'r ffordd hon o weithio'n ei gwneud yn haws iddyn nhw eirioli dros eu cymuned er mwyn cyflawni gwelliannau system ehangach o fewn eu maes arbenigedd.

Y Gydweithfa Nyrsio Proffesiynol Cafodd digwyddiad lansio'r Cydweithfeydd Nyrsio Proffesiynol ei gynnal ar 23 Mawrth, yn Sefydliad Lysaght Casnewydd.

Bu'r digwyddiad, a agorwyd gan Jenny Winslade, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, yn llwyddiant ysgubol. Ymhlith y siaradwyr oedd Dr Sue Thomas, Arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, Gorllewin Casnewydd; Kelly Downes, Nyrs Adrannol, Adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol; Dr Karen Gully, Cynghorydd Proffesiynol Cenedlaethol, Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol; Will Beer, Ymgynghorydd yn y maes Iechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Adrannol Cynorthwyol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol; Paul Labourne, Swyddog Nyrsio ar gyfer Gofal Sylfaenol ac Integredig, Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o dimau nyrsio amrywiol.

Bydd y Cydweithfeydd Nyrsio Proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd a gweithwyr proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau lleol ac yn arwain gofal mewn ffordd wahanol. Bydd dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd i gydweithio o amgylch y bwrdd yn helpu i lunio datrysiadau.

Dywedodd Kelly Downes, Nyrs Adrannol, Adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol a chadeirydd y digwyddiad, “Mae’n ysbrydoledig i nyrsys ddod at ei gilydd o amgylch y bwrdd i gael trafodaethau agored a gonest.”

Mynychodd Pippa Britton, Aelod Annibynnol, Bwrdd BIPAB, y digwyddiad, a dywedodd, “Mae hwn yn ddull gwirioneddol i wneud gwahaniaeth sylweddol i bobl yn y gymuned.”

Gwyliwch y fideo am ragor o wybodaeth
<https://vimeo.com/811217099?share=copy>

Digwyddiad Lansio Cydweithfeydd Proffesiynol
Cafodd digwyddiadau lansio Cydweithfeydd
Proffesiynol Optometreg, Deintyddol a Fferyllo
eu cynnal ddydd Mawrth 11 Gorffennaf yng
Nghanolfan Christchurch, Casnewydd ac yng
Nghlwb Golff Greenmeadow, Cwmbân.

Bu'r digwyddiadau'n llwyddiant ysgubol gyda phresenoldeb gwych a digonedd o frwdfrydedd.

Roedd llawer o drafod cadarnhaol yn digwydd yn y grwpiau trafod, gan ystyried yr hyn y gellir ei gyflawni fel cydweithfa a chyfleoedd i ddysgu ar y cyd mewn ffordd amlddisgyblaethol.

Dywedodd Lloyd Hambridge, Cyfarwyddwr Adrannol Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol Dros Dro, “Cawsom gynrychiolaeth wych gan ein cydweithwyr deintyddol, cydweithwyr o fferyllfeydd cymunedol a’n cydweithwyr optometreg heno. Cawsom ymgysylltiad da a gobeithio y bydd hyn yn parhau i symud ymlaen wrth i ni ddatblygu’r cydweithfeydd proffesiynol ymhellach”.

<https://vimeo.com/844606813?share=copy>

Beth yw'r Cydweithfa Optometreg?

Ceir cyflwyniad i'r Cydweithfa Optometreg gan
Stephanie Campbell, Arweinydd Optometreg Cymunedol
a Cath McNamara, Ymgynghorydd Optometreg, yma:

<https://vimeo.com/842210125?share=copy>





Cyfathrebu ac Ymgysylltu Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth

Ymgyrch #ByddGaredig Yn

dilyn adroddiadau bod achosion cynyddol o gam-drin staff ar draws y sector Gofal Sylfaenol, anfonwyd arolwg staff at staff mewn rolau sy'n ymdrin â'r cyhoedd mewn Meddygfeydd, Practisau Deintyddol, Fferyllfeydd a lleoliadau Optometreg. Yn ogystal â chasglu gwybodaeth, roedd yr arolwg yn gweithredu fel ymarfer gwrando. Cafwyd 291 ymateb, gydag 83% o staff a holwyd yn adrodd eu bod wedi wynebu rhyw lefel o gamdriniaeth. Roedd yr arolwg hefyd yn casglu adborth yn ymwneud â phrofiadau staff.



Roedd negeseuon yr ymgyrch yn ymgorffori rhai o ddyfyniadau'r staff er mwyn portreadu effaith camdriniaeth ar unigolion mewn ymgais i ddarbwyllu pobl i oedi a meddwl cyn bod yn anghwrtais neu ymosodol. Cafodd pecynnau ymgyrch digidol eu cynhyrchu a'u dosbarthu i Feddygfeydd, Fferyllfeydd, Practisau Deintyddol, lleoliadau Optometreg a'n Rhanddeiliaid. Caiff y negeseuon eu rhannu yn rheolaidd ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae pob Tîm Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth wedi buddsoddi mewn argraffu baneri a phosteri ar gyfer eu dosbarthu i Bractisiau ar draws pum Bwrdeistref BIPAB.

Llyfrynnau Croeso a Rhyddhau o Ysbytai Cymunedol NEWYDD

Nod y **Pecynnau Croeso Ysbytai Cymunedol** newydd yw cefnogi unigolion, eu gofalu a'u teuluoedd i ddeall y trosglwyddiad i amgylchedd ysbyty cymunedol.

Bydd y llyfryn **Beth Sydd Angen i Chi ei Wybod am Adael yr Ysbyty** yn annog cyfathrebu da ac yn cynorthwyo i greu cynlluniau effeithiol ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty, helpu pobl i ddeall cam nesaf eu taith, hwyluso trosglwyddiad didrafferth i'w lleoliad preswyl arferol neu nesaf.

Cafodd y ddau lyfryn eu creu dan arweiniad clinigol Joanne Lane, Dirprwy Bennaeth Nyrsio, gan weithio ag uwch nyrsys a rhanddeiliaid ehangach, ac yn bwysicach fyth gan gynnwys cleifion, aelodau teulu a thimau awdurdod lleol a'r trydydd sector. Mae'r cynnwys ar gael ar ein gwefan, lle mae modd defnyddio'r adnodd Recite Me i gefnogi pobl ag anableddau, anawsterau dysgu, nam ar y golwg, neu os mai Saesneg yw eu hail iaith. Mae dogfennau PDF hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u hargraffu. [Llyfrynnau Croeso a Rhyddhau o Ysbytai Cymunedol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan \(gig.cymru\)](https://bipab.gig.cymru/gwasanaethau-gofal-iechyd/meddygon-teulu-deintyddion-ac-ati/meddygon-teulu/)

Rolau Meddygfeydd

Mae cyfres o fideos proffil wedi eu cynhyrchu er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r rolau amrywiol mewn Meddygfeydd a chodi hyder pobl mewn cael apwyntiad gyda gwahanol weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Mae'r gwahanol rolau'n cynnwys:

- Ymarferydd Iechyd Seicolegol, Fferyllfeydd Practis,
- Cydymaith Meddygol
- Rheolwr Prosiect Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS)
- Parafeddyg Practis, Nyrs
- Bractis
- Uwch Ymarferydd Nyrsio,
- Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd Sylfaenol

Mae proffiliau fideo o bob rôl i'w cael ar ein gwefan:

<https://bipab.gig.cymru/gwasanaethau-gofal-iechyd/meddygon-teulu-deintyddion-ac-ati/meddygon-teulu/>





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dathliadau Gofal Sylfaenol #GIG75


#Y Pumed Genhedlaeth o Frodyr yn Parhau Gwaddol Fferyllfa 150 mlwydd oed Leol

Wrth i ni edrych yn ôl ar 75 mlynedd o'r GIG a 150 o flynyddoedd ers i Shackleton's agor, mae'r Fferyllfa hon yn enghraifft wych o'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd wedi addasu er mwyn bodloni anghenion ei phoblogaeth leol gynyddol, ac yn parhau i wneud hynny. Mae'r busnes teuluol wedi ymestyn i mewn i sawl eiddo adnabyddus a phoblogaidd; gan gynnwys nifer o ystafelloedd ymgynghori, system ddsbarthu electronig a rhestr gynhwysfawr o wasanaethau'r GIG.

<https://vimeo.com/841250965?share=copy>

O Ystafell Flaen Fictoraidd i Hyfforddi Gweithlu'r Dyfodol yn y Sector Gofal Sylfaenol

Sefydlwyd Meddygfa Beechwood ym 1918 yn ystafell flaen y Tŷ Fictoraidd. Er bod y Practis yn parhau i fod yn yr un adeilad, mae wedi newid yn sylweddol yn ystod y 100 mlynedd diwethaf, gan ddatblygu i fod yn gyfleuster modern iawn gyda thros 14,500 o gleifion. Y llynedd, derbyniodd Meddygfa Beechwood y teitl Practis Meddyg Teulu'r Flwyddyn gan eu cleifion, ac mae'n edrych ymlaen at barhau i wasanaethu a bod yn rhan o'u cymuned leol <https://vimeo.com/842210414?share=copy>



100 Mlynedd o Ofal Llygaid gan Optegwyr Coed Duon

Sefydlwyd Optegwyr Phillips ym 1922. Bellach, mae gan Optegwyr Phillips bum practis wedi'u lleoli ar draws Cymoedd De Cymru, gan gyflogi 20 aelod o staff sy'n cynnwys Optometryddion, Optegwyr Presgripsiynu, a nifer fawr o staff cymorth...mae wedi newid gryn dipyn ers y dyddiau o gasglu eich sbectol mewn siop emwaith yn sicr!

<https://vimeo.com/842134071?share=copy>

Fferyllfa yn Sir Fynwy Sy'n Cynnwys Bron i Ddwy Ganrif o Hanes Lleol

Mae Fferyllfa yn Sir Fynwy, sydd bellach dan berchnogaeth Daniel Rosser, wedi bod yn gwasanaethu'r boblogaeth leol o'r un adeilad ers dros 190 o flynyddoedd.

Mae gan y siop brysur hon nifer fawr o nodweddion hanesyddol, megis hen gwpwrdd meddyginiaeth, goleuadau wedi'u creu o hen boteli fferyllol ac arddangosfa ffenestr ryfeddol.

Er nad yw bellach yn cynnig gwasanaeth tynnu dannedd, mae'n cynnig rhestr gynhwysfawr o wasanaethau fferyllol a chyngor proffesiynol <https://vimeo.com/842133504?share=copy>

Pen-blwydd Hapus i'r GIG gan ysgol Our Lady of the Angels yng Nghwmbrân

Bu ysgol Our Lady of the Angels yn ymweld â Meddygfa Oak Street yng Nghwmbrân heddiw i helpu i ddatlu pen-blwydd y GIG yn 75 oed. Cafodd staff a chleifion fwynhau detholiad o ganeuon hyfryd. Yn ogystal, cyflwynodd y plant lythyrau diolch i'r GIG.

<https://vimeo.com/842492400?share=copy>

<https://vimeo.com/842492276?share=copy>



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board